

## Y CYFANSODDIAD ADRAN 13 – TABL 5

### CYFRIFOLDEB AM SWYDDOGAETHAU BWRDD GWEITHREDOL A CHYNLLUN DIRPRWYO I AELODAU GWEITHREDOL

#### BWRDD GWEITHREDOL

- 1 Bydd y Bwrdd Gweithredol yn arfer yr holl swyddogaethau nad ydynt wedi'u cadw i'r Cyngor neu eu dirprwyo fel arall i bwyllgor neu swyddog, drwy'r Cyfansoddiad hwn neu Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth)(Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007.
- 2 Heb ragfarn i gyffredinolrwydd yr uchod mae hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i swyddogaethau canlynol y Cyngor:-
  - (a) Swyddogaethau Tai'r Cyngor;
  - (b) Swyddogaeth y Cyngor fel yr Awdurdod Lleol o dan y Deddfau Addysg.
  - (c) Swyddogaeth y Cyngor fel Awdurdod Priffyrdd, Awdurdod Gwaith Stryd, Awdurdod Trafnidiaeth ac o dan unrhyw drefniadau cytundebol gyda Dŵr Cymru Plc.
  - (ch) Swyddogaethau'r Cyngor yn yr holl faterion sy'n ymwneud â datblygu economaidd, diwydiannol, masnachol a chyflogaeth, twristiaeth ac adnewyddu trefol ac ardal ac adfer tir.
  - (d) Swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â darparu, hyrwyddo a datblygu safonau amgylcheddol, diogelu defnyddwyr ac iechyd y cyhoedd, ac fel Awdurdod Casglu Gwastraff a Marchnadoedd.
  - (dd) Swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth, Archifau, Archeoleg, Amgueddfeydd ac Oriolau Celf, Canolfannau Cymunedol, Gwasanaeth Cefn Gwlad a Pharciau Gwledig a Hamdden ac Adloniant.
  - (e) Swyddogaethau'r Cyngor o dan Adran 2 ac Atodlen 1 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 (fel y'i diwygiwyd).
- 3 Bydd y Bwrdd Gweithredol hefyd yn gyfrifol am y swyddogaethau a restrir fel rhai sy'n gyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol yn Nhablau 1 a 3 o'r adran hon o'r Cyfansoddiad.
- 4 Bydd y Bwrdd Gweithredol hefyd yn:-
  - (a) Llunio a pharatoi cynlluniau strategol mawr sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor.
  - (b) Argymhell cyllideb y Cyngor i'w chymeradwyo i'r Cyngor a chyfrifo sylfaen Treth y Cyngor (gweler Tabl 3 o'r adran hon).

- (c) Sicrhau rheoli gwleidyddol corfforaethol effeithiol y Cyngor.
- (ch) Sefydlu ac adolygu'r rhaglen gyfalaf.
- (d) Cytuno ar ddyraniad adnoddau ariannol, dynol, tir ac eiddo i wasanaethau yn unol â blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth.
- (dd) Ffurio i'w hargymell i'r Cyngor a gweithredu polisi'r Cyngor mewn perthynas ag unrhyw ailstrwythuro llywodraeth leol yn y dyfodol.
- (e) Adolygu, datblygu a sefydlu polisiâu, strategaethau a mentrau nad ydynt wedi'u ddirprwyo neu wedi'u neilltuo i'r Cyngor fel arall.
- (f) Monitro perfformiad cyffredinol y cyllidebau refeniw a gwariant cyfalaf yn rheolaidd.
- (ff) Delio â throsglwyddiadau arfaethedig heb eu dirprwyo i swyddogion.
- (g) Gwneud penodiadau i gyrff allanol gyda'i feysydd diffiniedig o gyfrifoldeb.
- (h) Monitro camau gweithredu mewn ymateb i Adroddiad Gwella Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru
- (i) Penderfynu unrhyw gynigion sy'n ymwneud â'r defnydd o gronfeydd wrth gefn.
- (j) Derbyn adroddiadau a rhoi unrhyw awdurdodiad angenrheidiol ar gyfer benthyca a rheoli trysorlys.
- (k) Sefydlu safonau corfforaethol ar gyfer rheoli adnoddau dynol i sicrhau bod rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor a gofynion polisi yn cael eu bodloni ac i wneud y gorau o gyfraniad unigol ac ar y cyd gan weithwyr, wrth gyflawni amcanion y Cyngor.
- (l) Penderfynu ar ymatebion i'r dogfennau ymgynghori sy'n debygol o gael goblygiadau ar draws yr awdurdod.
- (ll) Penderfynu ar gamau gweithredu sy'n codi o'r Amcanion Gwella a osodwyd ac ar y cyd â'r Pwyllgor Craffu priodol, er mwyn monitro cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu Amcan Gwella.
- (m) Meithrin a chynnal perthnasau cadarnhaol gyda sefydliadau partner.

5 Mae nifer o swyddogaethau Bwrdd Gweithredol yn cael eu dirprwyo i swyddogion ac Aelodau Arweiniol. Ceir manylion ynghylch dirprwyaethau i swyddogion yn Nhabl 6 wedi'i atodi i'r adran hon o'r Cyfansoddiad.

## **6 Cydbwyllgorau**

### **6.1 Cydbwyllgor Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru**

O dan adran 10.3 mae'r Bwrdd Gweithredol wedi sefydlu cydbwyllgor a elwir yn 'Gydbwyllgor Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru' gyda Chyngor Bwrdeistref Conwy, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Sir Powys. Mae'r pwyllgor yn cynnwys dau Gynghorydd etholedig o bob Awdurdod sy'n Aelod. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi dirprwyo cyfrifoldeb i'r Cydbwyllgor ar gyfer cefnogi Cyngor Gwynedd (fel awdurdod arweiniol) a'r awdurdodau eraill sy'n aelodau o ran darparu gwasanaethau yn unol â chytundeb asiantaeth rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chyngor Gwynedd, yn ymwneud â chynnal a chadw a gwella cefnffyrdd yn ardaloedd yr awdurdodau sy'n aelodau, yn unol â chyfansoddiad y cydbwyllgor.

### **6.2 Cydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE)**

O dan adran 10.3 mae'r Bwrdd Gweithredol wedi sefydlu cydbwyllgor a elwir yn Gydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE) gyda Chyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint. Mae'r Cydbwyllgor yn cynnwys 6 Aelod Cabinet / Gweithredol, 2 o bob Awdurdod Lleol.

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi dirprwyo Awdurdod i'r Cydbwyllgor weithredu'r Cynllun Gweithredu a gymeradwywyd o fewn cyllidebau a gymeradwywyd gan bob awdurdod lleol. Bydd cyfarfodydd y Cydbwyllgor ond yn gworwm os bydd o leiaf un Aelod o bob awdurdod yn bresennol.

### **6.3 Cyd-bwyllgor yn ymwneud â chyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru**

O dan adran 10.3 mae'r Bwrdd Gweithredol wedi sefydlu cydbwyllgor gyda Cyngor Sir Y Fflint, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn a rheolwyd gan cytundeb dyddiedir 18 Rhagfyr 2018 rhwng y cynghorau lleol yn ogystal a phartneriaid eraill yn y sector addysg a busnes. Mae'r cyd-pwyllgor yn cynnwys Arweinyddion pob awdurdod lleol gyda cynrychiolwyr y partneriaid eraill yn cymryd rhan mewn rôl ymgynghorol. Mae'r partion wedi ymrwymo i'r cytundeb i ffurfioli eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau yng nghyswllt Cynllun Twf Gogledd Cymru hyd at y pwynt pan gaiff y Cynllun Twf ei lofnodi gan y partion, Llywodraeth DU a Llywodraeth Cymru.

### **6.4 Cyd-bwyllgor gwasanaeth effeithiolrwydd a gwella ysgolion rhanbarthol**

O dan adran 10.3 mae'r Bwrdd Gweithredol sefydlwyd cyd-bwyllgor gyda Cyngor Sir Y Fflint, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn yn unol â cytundeb dyddiedig 18 Chwefror 2013. Mae'r Cyd-bwyllgor yn cynnwys 6 Aelod Cabinet / Gweithredol sydd â chyfrifoldeb am addysg, 1 o bob Awdurdod Lleol. Pwrpas y Cyd-bwyllgor yw ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y chwe Awdurdod Lleol yn ngogledd Cymru yng nghyswllt eu dyletswyddau i fonitro; herio; darparu gwasanaeth cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus

drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

## **DIRPRWYAETHAU GWEITHREDOL I AELODAU ARWEINIOL**

**Mae manylion swyddogaethau gweithredol a ddirprwywyd i Aelodau Arweiniol wedi'u nodi isod**

### **A. DARPARIAETHAU CYFFREDINOL**

Nid yw'r un o'r dirprwyaethau hyn yn effeithio ar ddirprwyaethau presennol i Swyddogion.

1. Cymeradwyo presenoldeb Aelodau mewn cynadleddau, seminarau a digwyddiadau mewn perthynas â materion sy'n ymwneud yn unig â chylch gorchwyl swyddogaethol Aelod Arweiniol at ddibenion talu lwfansau cynhaliaeth a theithio, lle ystyrir y byddai'r fath er budd y Cyngor ac yn unol â pholisi'r Cyngor. (Nodyn: Os yw'r Aelod Arweiniol am fynychu, bydd y presenoldeb yn cael ei gymeradwyo gan yr Arweinydd neu'r Dirprwy Arweinydd).
2. Cymeradwyo ffurfio, cwmpas ac aelodaeth Grwpiau Ymgynghori i gynnal prosiectau sy'n ymwneud ag agweddau penodol ar waith yr Aelod Arweiniol. Bydd bob Grŵp Ymgynghori o'r fath yn dod i ben yn dilyn diwedd cyfnod penodol o amser y cytunwyd arno ar ddechrau'r prosiect neu ddigwyddiad penodol. Bydd parhad yr holl Grwpiau Ymgynghori, neu rai Grwpiau o'r fath yn cael eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn gan yr Aelod Arweiniol.
3. Penodi cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd cyrff allanol priodol mewn perthynas â swyddogaethau o dan gylch gorchwyl yr Aelod Arweiniol yn unig.
4. Penderfynu ar ymateb i unrhyw ddogfen ymgynghori neu adroddiad arolygu sy'n dod o fewn cylch gorchwyl eu rôl Aelod Arweiniol yn unig.
5. Cymeradwyo cyhoeddi unrhyw ddogfen ymgynghori neu adroddiad arolygu sy'n ymwneud â'u rôl Aelod Arweiniol yn unig.
6. Cymeradwyo cynnwys unrhyw gynllun, strategaeth neu ddogfen bolisi arall sy'n berthnasol i rôl yr Aelod Arweiniol yn unig. Nid yw hyn yn cynnwys cynlluniau a strategaethau sy'n ffurfio Fframwaith Polisi'r Cyngor fel y'u diffinnir yn adran 4 y Cyfansoddiad hwn.
7. Mewn achosion na ddirprwywyd eisoes i Swyddogion, i benderfynu a ddylid cyhoeddi unrhyw hysbysiadau statudol (ac eithrio mewn perthynas â chau ysgolion) ac i benderfynu ar y camau sydd i'w cymryd yng ngoleuni unrhyw sylwadau a ddaw i law yn dilyn cyhoeddi hysbysiad o'r fath.
8. Yn absenoldeb neu anallu unrhyw Aelod Arweiniol i weithredu, bydd yr Arweinydd yn arfer unrhyw swyddogaeth gwneud penderfyniadau'r Aelod Arweiniol hwnnw, neu ddyrannu'r penderfyniad i Aelod Arweiniol arall.

## **B. DARPARIAETHAU PENODOL**

### **YR ARWEINYDD**

1. Cymeradwyo presenoldeb Aelodau Arweiniol mewn cynadleddau, seminarau a digwyddiadau eraill tebyg y tu allan i gylch gorchwyl swyddogaethol rôl yr Aelod Arweiniol, neu lle mae cost presenoldeb, h.y. ffi Gynhadledd, at ddibenion talu lwfansau cynhaliadau a theithio lle ystyrir y byddai hynny er budd y Cyngor ac yn unol â pholisi'r Cyngor.
2. Cymeradwyo ymweliadau y tu allan i'r DU gan Aelodau y mae'r Cyngor wedi talu amdanynt neu y bydd yn talu amdanynt ,ac eithrio ymweliadau a wnaed gan yr Arweinydd, ac mewn achos felly bydd y weithdrefn a nodir yn adran 3 y Nodiadau Cyfarwyddyd ar Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau yn section 24 o'r Cyfansoddiad hwn yn cael ei dilyn.
3. Penodi cynrychiolwyr y cyngor ar gyrrff allanol ble mae'r cyrrff rheini yn ymwneud â swyddogaethau gweithredol y Cyngor yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i:
  - Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac fel y bo'n briodol, Panel Gweithredol yr Awdurdod Tân
  - Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chynulliad Cyffredinol Cymdeithas Llywodraeth Leol a Phwyllgor Cydlynw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ynghyd â'r pŵer i benderfynu sut y gweithredir hawliau pleidleisio Wrecsam
4. Cymeradwyo, mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Grŵp a ddatganwyd, presenoldeb Aelodau a / neu Swyddogion ym Mhartion Gardd Brenhinol

### **Y DIRPRWY ARWEINYDD**

5. Yn absenoldeb neu anallu'r Arweinydd i weithredu, i arfer unrhyw un o'r swyddogaethau gwneud penderfyniad wedi'u dirprwyo i'r Arweinydd.

### **AELOD ARWEINIOL GWASANAETAU PLANT AC ADDYSG**

6. Penderfynu ar bob mater sy'n ymwneud â phenodi Llywodraethwyr Ysgolion yr Awdurdod Lleol lle mae mwy o ymgeiswyr na swyddi gwag.
7. Penodi'r Aelod Awdurdod Lleol o'r Panel Maethu.
8. Penodi'r Aelod Awdurdod Lleol o'r Panel Mabwysiadu.
9. Penodi aelodau llewg i baneli apêl annibynnol yn delio ag apeliadau derbyn a gwahardd o ysgolion

Gall Aelod Arweiniol, os yw'n ystyried yn briodol, ethol i gyfeirio yn ôl i'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer arfer unrhyw bŵer dirprwyedig i'r Aelod hwnnw.

Bydd dirprwyaethau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd Gweithredol a nodir yn Adran 13 Tabl 5 o'r Cyfansoddiad, yn parhau mewn grym hyd nes diwygio neu ddirymu fel y darperir ar ei gyfer yn Rheolau'r Weithdrefn Weithredol i'w cael yn Adran 5 y Cyfansoddiad hwn.

Lle nad yw Aelod Arweiniol, Pwyllgor, neu Is-bwyllgor wedi gweithredu dirprwyaeth i wneud penderfyniad gweithredol, gall y Bwrdd Gweithredol arfer ei/eu d/ddirprwyaeth.

Bydd pob penderfyniad gan y Bwrdd Gweithredol, Aelod Arweiniol, neu bwyllgor neu is-bwyllgor sy'n arfer swyddogaethau gweithredol dan bwerau dirprwyedig, yn cydymffurfio ym mhob ffordd â'r Cyfansoddiad hwn ac yn arbennig gyda'i Fframwaith Cyllideb a Pholisi, Rheolau Gweithdrefn, Rheoliadau Ariannol, codau a phrotocolau.